NOSC 2026 Rhif 199

TRAFFIG FFYRDD

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Cwm Rhwyddfor, Tal-y-llyn, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2026

Gwnaed	*13 Tachwedd 2026*
Yn dod i rym	*17 Tachwedd 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Cwm Rhwyddfor, Tal-y-llyn, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Tachwedd 2026.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

NWSI 2026 No. 199

ROAD TRAFFIC

The A487 Trunk Road (Cwm Rhwyddfor, Tal-y-llyn, Gwynedd) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2026

Made	*13 November 2026*
Coming into force	*17 November 2026*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Cwm Rhwyddfor, Tal-y-llyn, Gwynedd) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2026 and this Order comes into force on 17 November 2026.

Interpretation

2. In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A487 Fishguard to Bangor trunk road;

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 17 Tachwedd 2026 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o 500 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r fynedfa i'r eiddo o'r enw Fferm Cwmrhwyddfor hyd at ganolbwynt ei chyffordd â'r B4405 i Dywyn.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiad 13 Tachwedd 2026

Nicci Hunter
Pennaeth Llywodraethiant a Sicrwydd
Llywodraeth Cymru

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means that period commencing at 20:00 hours on 17 November 2026 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road that extends from 500 metres north its junction with the entrance to the property known as Cwmrhwyddfor Farm to the centre-point of its junction with the B4405 to Tywyn.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 6 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Transport, acting under the authority of the Cabinet Minister for Enterprise, Connectivity and Energy, one of the Welsh Ministers.

Dated 13 November 2026

Nicci Hunter
Head of Governance and Assurance
Welsh Government